| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **18 Ebrill 2016** |
| **TEITL** | **DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**CRYNODEB**

2.1 Daeth Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1 Ebrill 2016.

2.2 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio rhai elfennau allweddol o'r Cod Ymddygiad presennol.

2.3 Rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn a rhaid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ystyried y newidiadau hyn.

2.4 Rhaid i Aelodau ystyried darparu cyngor ar y newidiadau hyn i Glercod Cynghorau Cymuned hefyd.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fabwysiadu Cod sy'n ymwneud â'r ymddygiad a ddisgwylir gan ei Aelodau. Mae cynnwys craidd y Cod, a elwir yn God Ymddygiad Enghreifftiol, wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru ers cyflwyno'r Cod cyntaf yn 2000. Yn 2008, diwygiwyd y Cod Enghreifftiol yn sylweddol i'w ffurf gyfredol.

4.2 Mae Gorchymyn 2016 yn diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol mewn rhai ffyrdd allweddol, sef:-

4.2.1 Mae'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adrodd am unrhyw ymddygiad y credant yn rhesymol iddo fod yn groes i'r Cod Ymddygiad wedi'i newid. Bellach mae gofyn i Aelodau adrodd am y mater i'r Swyddog Monitro yn unig ac nid i'r Ombwdsmon hefyd.

4.2.2. Mae Rheol 10 (2) (b) y Cod blaenorol wedi'i dileu. Roedd hyn yn creu Buddiant Personol ble y gallai aelod o'r cyhoedd fod wedi canfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud neu fod yn rhan o benderfyniad penodol a'ch rôl yn cynrychioli buddiannau etholwyr eich ward.

4.2.3 Cyflwynir darpariaethau ychwanegol ynghylch gwneud sylwadau ysgrifenedig os oes gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn y sefyllfa honno, gall Aelodau gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod yn ymwneud â'r busnes hwnnw a bwrw bod gan y cyhoedd hawl i fynychu'r cyfarfod er mwyn gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu gyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes hwnnw. Wrth gyflwyno unrhyw sylwadau, rhaid i Aelodau gydymffurfio ag unrhyw drefn y mae'r Awdurdod wedi'i mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhoi Aelodau yn yr un sefyllfa ag aelod o'r cyhoedd yn yr amgylchiadau penodol hynny. Roedd darpariaethau'n bodoli eisoes er mwyn i aelodau ymarfer eu hawl i siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd o'r fath ble'r oedd trefnau'r awdurdod yn caniatáu hyn ac yn unol â threfnau'r awdurdod. Fodd bynnag, ni fydd modd i'r Aelod dan sylw drafod y mater na phleidleisio arno.

Hefyd, ceir nifer o newidiadau technegol yn ymwneud â diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a darparu eglurder ar gyfer materion yn ymwneud â Chynghorau Cymuned yn benodol.

## 3. ARGYMHELLION / OPSIYNAU

**3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau.**

**3.2 Bod yr Aelodau'n ystyried goblygiadau'r newidiadau i Gynghorau Tref a Chymuned.**

**Atodiad**

Diwygiadau perthnasol i'r Cyfansoddiad

**PAPURAU CEFNDIR**

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016